

Yr Ysgol Sul

Darlleniad: Luc 2: 41-52

‘Am yr Ysgol rad Sabothol,
Clod, clod i Dduw!’

Cydnabyddwn di, O! Dduw, fel un sy'n ei ddatguddio ei hun i ni yn dy greadigaeth. Yng ngeiriau'r emynydd:

‘Mae'r nefoedd faith uwchben
Yn datgan mawredd Duw;
Mae'r haul a'r lloer a'r sêr i gyd
Yn dweud mai rhyfedd yw.’

Yn Dduw sy'n llond pob lle, ac yn bresennol ymhob man. Mae holl drefn natur yn dy ddangos am y Duw wyt ti, gan danlinellu dy ogoniant a'th ryfeddod. Ond fe'th welwn yn mynd â'r datguddiad yna ymhellach, drwy roi canolbwynt arbennig iddo, a hynny ym mherson dy annwyl Fab, Iesu Grist, yr hwn y down i wybod amdano yn yr ysgrythur, ac a ddatguddir i ni trwy waith dy lân Ysbryd. Derbyn ein diolch, felly, am yr ysgrythur, yn yr hon y down i wybod, a thrwy ffydd i gredu ac i dderbyn ein hiachawdwriaeth a'n gobaith.

Cydnabyddwn nad yno y gorffen y datguddiad, ond dy fod ti'n ddyddiol yn dysgu rhywbeth newydd i ni, yn amgylchiadau a sefyllfaoedd bywyd, ond yn fwy felly wrth inni ddarllen ac astudio dy Air a'i gynnwys ... wrth inni ddod i ddeall proffwydoliaethau a doethinebau, wrth inni gydganu Salmau, wrth inni ymgyfarwyddo â hanesion unigolion, wrth inni gael cipolwg ar gyflwr eglwysi. Oherwydd Duw tragwyddol wyt ti, a'th ymwneud â dyn yr un o oes i oes.

Derbyn, felly, ein diolch am waith yr Ysgol Sul, am ei hanes yn y gorffennol; am yr unigolion hynny a fu'n gyfrifol am sefydlu a

darparu a chynnal; am ymroddiad ei hathrawon ac am gyfoeth dysg ei disgyblion. Diolchwn am y gofal, y cymorth a'r arweiniad, ynghyd â'r ddisgyblaeth a gawsom wrth fynychu'r sefydliad annwyl hwn sydd mor agos at galonnau pawb ohonom.

Sylweddolwn, O! Dad, nad unigolion ynghlwm wrth ein gorffennol ydym ond, yn hytrach, pobl yn byw yn y presennol. Cyffeswn angen ein hoes am ddealltwriaeth sylfaenol o'r efengyl, ac am ddysgu ac aiddysgu hanfodion y ffydd. Cyflwynwn felly i'th ddwylo waith ac ymdrech yr Ysgol Sul heddiw. Mewn oes o ddiffyg amser, mewn oes o ddiffyg diddordeb, yn wyneb cymdeithas fodern a thechnolegol, diolchwn am y fendith a'r llawenydd sy'n dal i gael ei brofi drwyddi, am gyfoeth yr adnoddau sydd ar gael i'w chynorthwyo yn ei gwaith, ac am ymroddiad ei hathrawon a'i disgyblion. Gweddïwn ar i ti ogoneddu'r cyfan, ac y gwelir ffrwyth y llafur ym muchedd y credinwyr ac ym mywyd yr Eglwys. Gad i'w tystiolaeth lifo i heolydd ein cymdeithas, gan gyfeirio cerddediad dyn at yr hwn y tardd pob doethineb ohono, yr hwn sy'n ffynhonnell pob gwirionedd, sef tydi dy hun. Gofynnwn hyn oll, yn enw'r Athro mawr ei hun, Iesu Grist dy Fab. Amen.

Eifion Arthur Roberts